Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Dyddiad | Date: 9 Chwefror 2021

Pwnc | Subject: Gwaith dilynol ar effaith COVID-19 ar chwaraeon

Annwyl Dafydd,

Ers dechrau pandemig COVID-19, mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi trafod llawer o oblygiadau COVID-19 i feysydd o fewn eich portffolio gweinidogol. Mae hyn wedi cynnwys ein **hadroddiad cychwynnol ar yr effaith ar chwaraeon yng Nghymru** a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Ym mis Ionawr 2021, gwnaethom gytuno i ailedrych ar y maes gwaith hwn a chymryd tystiolaeth gan yr unigolion a sefydliadau a ganlyn:

- Brian Davies, Chwaraeon Cymru;
- Victoria Ward, Cymdeithas Chwaraeon Cymru;
- Jonathan Ford,Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC);
- Marcus Kingwell, EMD UK;
- Steve Phillips, Undeb Rygbi Cymru (URC).

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a helpodd y Pwyllgor gyda’i waith. Mae'n bwysig pwysleisio o'r dechrau, oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i'r Pwyllgor ar hyn o bryd, nad oeddem yn gallu edrych yn ehangach ar chwaraeon eraill sydd, heb os, â rhan bwysig mewn cymunedau lleol a'n bywyd cenedlaethol. Yn lle hynny, rydym yn gobeithio codi rhai o'r materion sy'n gyffredin i'r sector cyfan.

Mae **trawsgrifiad o'r sesiwn ar gael ar ein gwefan**. Yn dilyn y sesiwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch gyda nifer o gwestiynau, canfyddiadau ac argymhellion a nodir yn yr atodiad isod.

Hefyd, rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Dai Lloyd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir,

**Bethan Sayed AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Atodiad**

**Effaith y pandemig ar gyfranogiad a gweithgarwch corfforol**

Nodwyd bod effaith y pandemig a mesurau'r cyfyngiadau symud yn drychinebus ac yn ddinistriol i chwaraeon yng Nghymru.[1] Dywedodd Brian Davies o Chwaraeon Cymru fod effaith mesurau'r cyfyngiadau symud presennol yn barlysol, yn enwedig ar lawr gwlad.[2] Dan y cyfyngiadau lefel pedwar presennol, gwaharddir yr holl weithgareddau chwaraeon, heblaw am nifer fach iawn o rai elitaidd. Heblaw am chwaraeon proffesiynol (megis rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd) amcangyfrifodd Mr Davies mai dim ond tua 200 o athletwyr yng Nghymru sydd â goddefeb o reoliadau'r cyfyngiadau symud.[3]

O ran gweithgaredd corfforol, mae **ymchwil gan Chwaraeon Cymru** yn awgrymu bod y pandemig, i raddau, wedi atgyfnerthu a dwysáu'r tueddiadau presennol. Canfu arolwg Chwaraeon Cymru fod y cyfranogiad cyffredinol mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru wedi cadw at yr un lefelau yn fras yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, er nad oes chwaraeon strwythuredig. Fodd bynnag, roedd plant, oedolion hŷn (55 oed a hŷn) a'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn tueddu i gymryd rhan mewn llai o chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod y cyfyngiadau symud nag roeddent wedi o'r blaen.

Cytunodd Victoria Ward o Gymdeithas Chwaraeon Cymru a Brian Davies o Chwaraeon Cymru fod y pandemig wedi gwaethygu'r bwlch anghydraddoldebau presennol o ran gweithgarwch corfforol.[4] Yn yr un modd, dywedodd Marcus Kingwell o EMD UK fod effaith y pandemig wedi bod yn niweidiol iawn i fenywod. Dywedodd Mr Kingwell y canlynol:

> "[...] within group exercise, which is pretty much the most popular physical activity that women take part in, 80 per cent of the participants are female. So, with restrictions on that—and I fully accept them in level 4, by the way—it disproportionately impacts women. And if we look back through the history of sport and physical activity in an organised manner, there's been significantly more barriers to female participation across the board, and those are starting to return."[5]

Pan gynhaliwyd ein sesiwn dystiolaeth, roedd y cyfyngiadau lefel pedwar yng Nghymru yn cyfyngu ar unigolion i ymarfer corff yn yr awyr agored, unwaith y dydd ac ar eu pen eu hunain yn unig, gydag aelodau o'u cartref neu swigod cymorth. Dywedodd Victoria Ward o Gymdeithas Chwaraeon Cymru y byddai'n croesawu addasiad i'r rheoliadau hyn sy'n caniatáu i fwy nag un aelwyd ymuno â'i gilydd ar gyfer ymarfer corff yn yr awyr agored a fyddai'n ein gwneud yn gyson â gwledydd eraill Prydain. [6] Yn yr adolygiad tair wythnos diweddaraf o reoliadau coronafeirws ar 29 Ionawr,

---

[1] Senedd Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraffau 91, 92, 98
[2] Paragraff 8
[3] Paragraff 10
[4] Paragraffau 28 ac 31
[5] Paragraff 147
[6] Paragraff 73

cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r rheoliadau'n cael eu diwygio i ganiatáu i hyd at ddau berson o ddwy aelwyd wahanol ymarfer corff gyda'i gilydd.[7]

***Mae'r pandemig yn parhau i gael effaith fawr ar draws y sector ac ar bob lefel. Mae arwyddion parhaus bod effaith y pandemig ar gyfranogiad a lefelau gweithgarwch corfforol yn anwastad ar draws cefndiroedd economaidd-gymdeithasol a demograffig gwahanol. Rydym hefyd wedi clywed pryderon wrth wneud ein gwaith o ddydd i ddydd am yr effaith y mae diffyg gweithgareddau corfforol a chwaraeon yn ei chael ar blant a phobl ifanc a'r niwed y mae hyn yn ei gael ar eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u llesiant.***

***Argymhelliad 1) Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chwaraeon Cymru ac eraill i gynnal rhagor o ymchwil ar effaith y pandemig ar lefelau cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol ar gyfer grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn llywio gwaith cynllunio a llunio polisi ar ôl y pandemig.  Mae'n rhaid i'r ymchwil hon gynnwys asesiad o'r effaith ar gyfranogiad menywod, y gymuned BAME, ac ar blant a phobl ifanc.***

**Fel y nodwyd yn y dystiolaeth – mae cyfyngiadau lefel/haen pedwar gwahanol yn gymwys yng Nghymru, yr Alban a Lloegr o ran ymarfer corff yn yr awyr agored a chlywodd y Pwyllgor alwadau am edrych ar y rhain eto.**

***Rydym yn croesawu penderfyniad y Prif Weinidog i ganiatáu i ddau berson o ddwy aelwyd wahanol ymarfer corff gyda'i gilydd (ar yr amod y gwneir pob ymdrech i gadw pellter cymdeithasol) yn ogystal ag eithriad ar gyfer mynd gyda phlant dan 11 oed. Yn ein barn ni, dylid cadw'r eithriad hwn hefyd mewn cyfyngiadau symud lefel pedwar yn y dyfodol.***

**Er bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r pandemig – mae manteision amlwg i iechyd y cyhoedd (iechyd corfforol a meddyliol) i weithgarwch corfforol ac ymarfer corff. Ar hyn o bryd, gwaherddir popeth heblaw am gyfres fach iawn a chyfyngedig o weithgareddau ac (yn ychwanegol at y pryderon mewn perthynas â'r grwpiau penodol uchod) mae hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar unigolion a'r sector cyfan.**

***Argymhelliad 2) Pan fydd amodau (o ran rheoli'r feirws) yn caniatáu, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod campfeydd, lleoliadau chwaraeon a lleoliadau ymarfer corff eraill (gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff grŵp sy'n cwrdd yn yr awyr agored) ymysg y blaenoriaethau wrth lacio'r cyfyngiadau symud.***

---

[7] Datganiad Ysgrifenedig, Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 – 29 Ionawr 2021

**Canllawiau a'r cynllun rheoli coronafeirws**

Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol i'r cynllun rheoli coronafeirws newydd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 sy'n amlinellu'r gweithgareddau gwahanol a ganiateir ar draws y pedair lefel rhybudd yng Nghymru.

Cytunodd Chwaraeon Cymru, EMD UK, URC ac CBDC fod lefel yr ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru wedi bod yn dda.[8] At hynny, roedd Jonathan Ford o CBDC a Marcus Kingwell o EMD UK am gymryd mwy o ran yn agweddau manwl canllawiau yn y dyfodol. Yn benodol, nododd Mr Ford fod datgysylltiad weithiau rhwng trafodaethau a'r polisi yn y pen draw wrth iddo gael ei lunio a'i gyfleu'n ehangach. Cyfeiriodd Mr Ford at enghraifft y terfyn 30 person ar weithgareddau yn yr awyr agored (a oedd ar waith o'r blaen yn ystod haf 2020) gan ddweud ei fod yn ymddangos yn ffigur mympwyol a gafodd ei ddefnyddio ar draws cymdeithas ac na chafodd ei greu drwy ymgynghoriad o gwbl.[9]

***Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r lefelau ymgysylltu da rhwng y sector, Llywodraeth Cymru a swyddogion ar lefelau uwch ac yn disgwyl i hyn barhau dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, wedi hynny, rydym wedi cael gwybodaeth sy'n awgrymu nad yw gwybodaeth bob amser yn rhaeadru o'r lefelau uwch i'r lefel llawr gwlad mewn modd effeithiol ac amserol. Felly, rydym yn disgwyl i bob ymdrech gael ei gwneud i sicrhau y caiff canllawiau a gwybodaeth eu lledaenu'n effeithiol gan Lywodraeth Cymru a chyrff perthnasol i'r lefel llawr gwlad pan fydd newidiadau'n digwydd yn y dyfodol.***

***O ran canllawiau yn y dyfodol, nodwn fod y rheol ynghylch hyd at 30 o gyfranogwyr ar gyfer ymarfer corff yn yr awyr agored yn parhau i fod ar waith yn y cynllun rheoli coronafeirws newydd ar draws lefelau rhybudd dau a thri. Mae hyn yn codi i 100 o gyfranogwyr ar lefel rhybudd un.***

***Argymhelliad 3) Byddem yn croesawu mwy o fanylion ynghylch sut y penderfynwyd ar 30 fel uchafswm. Er mwyn ein galluogi i wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r dystiolaeth wyddonol y mae'r rheol hon yn seiliedig arni. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa asesiad y mae wedi'i gynnal o'r effaith y bydd terfyn 30 person yn ei chael ar ailddechrau gweithgareddau chwaraeon, yn enwedig ar lawr gwlad.***

[8] Paragraffau 17, 111, 112, 113

[9] Paragraff 112

**Gwylwyr a chwaraeon gwylwyr**

Mae cyfyngiadau COVID-19 ers dechrau'r pandemig yng Nghymru wedi gwahardd yr holl wylwyr rhag mynd i ddigwyddiadau chwaraeon yn ffisegol. Heb os, mae effaith economaidd niweidiol ar chwaraeon gwahardd gwylwyr - a'r refeniw y maent yn dod ag ef - wedi bod yn ddwys.[10]

Pwysleisiodd Jonathan Ford o CBDC a Steve Phillips o URC bwysigrwydd sefydlu map ffyrdd clir i wylwyr ddychwelyd yn ddiogel i ddigwyddiadau chwaraeon (ar draws pob lefel o'r gêm). Esboniodd Mr Ford y canlynol:

> "It's having a little bit more clarity so that people can see that there's light at the end of the tunnel. At the moment, there's no light at the end of the spectator tunnel, and we would just like to have some assurances that there is a plan going to be put in place, and if things go according to plan, which we appreciate that everything changes, but if they go according to plan and the vaccination roll-out works and the numbers come down and we go down the scales, it will be increased. If people can understand that, they can start putting their business models back in place. At this moment in time, the business model is broken without match-day attendances and without the additional spend, and we just need to try and find that solution, otherwise people are looking back at me and I cannot be the bank, unfortunately; we only have so much money and we are looking at survival ourselves."

Esboniodd Jonathan Ford o CBDC fod cymysgedd o dimau proffesiynol a lled-broffesiynol sy'n chwarae yn uwch gynghrair Cymru yn golygu na all uwch gynghrair Cymru weithredu ar hyn o bryd. Ychwanegodd URC fod hyn yn wir hefyd ar gyfer uwch gynghrair rygbi Cymru.[11]

O ran Twrnamaint y Chwe Gwlad yn 2021, esboniodd Steve Phillips o URC y cynhelir y tri thwrnamaint (twrnameintiau'r menywod hŷn; y dynion hŷn; a'r un dan 20 oed) ar yr un pryd fel arfer, ond na fyddai hyn yn bosibl gyda'r protocolau coronafeirws ynghylch cyfleusterau, profion ac ati. Esboniodd Mr Phillips mai eu bwriad bellach oedd cynnal pob twrnamaint ar wahân ac yn ei dro.[12]

***Mae'r sector cyfan i'w ganmol am y ffordd y mae wedi gweithio i sicrhau y bu modd cynnal rhai gweithgareddau chwaraeon, sydd weithiau'n cynnwys ebyrth personol gan y bobl sy'n cymryd rhan yn y chwaraeon eu hunain. Mae enghreifftiau nodedig o weithgareddau chwaraeon wedi cynnwys ailddechrau'r gynghrair bêl-droed broffesiynol a Chwpan Cenhedloedd yr Hydref yn ddiogel yn ddiweddar.***

***Nodwn fod cymysgedd o glybiau proffesiynol a lled-broffesiynol sy'n chwarae mewn cynghreiriau chwaraeon pwysig fel uwch gynghreiriau rygbi a phêl-droed Cymru yn golygu***

[10] Paragraffau 66, 102, 158
[11] Paragraffau 95 ac 96
[12] Paragraff 143

***bod y cynghreiriau hynny'n segur ar hyn o bryd. Mae hyn yn wahanol i'r nifer fach o glybiau pêl-droed proffesiynol sy'n chwarae yng nghynghrair bêl-droed Lloegr.***

***Pan aeth y Pwyllgor ati i ailedrych ar COVID-19 a chwaraeon, un o'r meysydd allweddol o ddiddordeb i ni oedd ailddechrau chwaraeon gwylwyr yn ddiogel. Yn ystod yr hydref, Cymru oedd yr unig wlad yn y DU i wahardd gwylwyr rhag mynd i ddigwyddiadau chwaraeon mewn ffordd gyfyngedig. Mae'r ffaith bod sefyllfa iechyd y cyhoedd ar draws y DU wedi dirywio mor sylweddol yn y cyfamser yn brawf o'r gwaith anodd y mae Llywodraeth Cymru a'r sector wedi'i gael o ran ymateb i bandemig anrhagweladwy sy'n newid yn gyflym.***

***Argymhelliad 4) Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei barn am:***

- ***yr amodau a fyddai'n galluogi treialu digwyddiadau chwaraeon gwylwyr diogel;***
- ***y berthynas rhwng y rhaglen frechu a gwylwyr yn dychwelyd i ddigwyddiadau chwaraeon;***
- ***manylion unrhyw ymgysylltiad y mae'n ei gael â chlybiau Cymru sy'n chwarae yng nghynghrair bêl-droed Lloegr i sicrhau syniadau cydgysylltiedig;***
- ***diweddariad ar yr amserlenni presennol y mae'n gweithio tuag atynt yn hynny o beth.***

***Mae'r Pwyllgor yn nodi'r penderfyniad i ohirio twrnamaint menywod y Chwe Gwlad yn 2021 ac mae'n disgwyl i bob ymdrech gael ei gwneud i sicrhau y gellir cynnal y twrnamaint yn ddiweddarach eleni.***

**Cyllid**

Mae cymorth ariannol i'r sector wedi bod yn hanfodol er mwyn dod drwy'r gwaethaf o'r pandemig. Amlinellodd Chwaraeon Cymru sut y dyrannwyd £22.7 miliwn mewn cyllid hyd yn hyn mewn ymateb i bandemig COVID-19.[13] Dywedodd Mr Davies y canlynol:

> "the Be Active Wales fund has been the primary source for community clubs et cetera to apply, but we've also supported governing bodies, and some governing bodies have also allocated some of that resource down to that level of their membership. We've allocated around about £2.2 million of the Be Active Wales fund, and that has all gone to community grass-roots organisations. I'd have to dig out the exact stats, but it's something like around about 900 supported applicants, who would all be different entities. Football has been a big beneficiary of that, but that's what you'd expect; there are far more football clubs than any other type of clubs at grass-roots level. So, around about £2.2 million has gone, through the Be Active Wales fund, and we've supported governing bodies, not only with protected funding they would have had annually, but

[13] Paragraff 51

also £2.5 million worth of additional funding for, primarily, grass-roots activity that they're responsible for."[14]

Ar yr un pryd, rhybuddiodd Victoria Ward o Gymdeithas Chwaraeon Cymru, er bod Chwaraeon Cymru wedi gwneud gwaith gwych o ran cael arian allan i gymunedau, fod y cyllid hyd yn hyn yn fach mewn termau cymharol ac na fyddai'n gwrthbwyso'r gostyngiad mewn incwm y mae'r sector yn ei wynebu.[15]

Yn yr un modd, dywedodd CBDC fod y cyllid drwy'r Gronfa Cymru Actif a'r Gronfa Gwydnwch Chwaraeon yn rhaff achub, ond rhybuddiodd y byddai angen mwy o arian i sicrhau y gall y clybiau pêl-droed (bron 1,000 ohonynt) oroesi. Tynnodd Mr Ford sylw hefyd at ffynonellau cyllid eraill roedd ei gamp wedi elwa arnynt, gan gynnwys FIFA a'r Loteri Genedlaethol.[16]

O ran yr effaith ar ymarferwyr unigol yn y sector, pwysleisiodd Marcus Kingwell o EMD UK y **bylchau mewn cymorth**, yn enwedig i'r rhai sy'n hunangyflogedig.

Ar 25 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr** gwerth £17.7 miliwn. Mae mwyafrif helaeth y Gronfa hon (£13.5 miliwn) wedi'i ddyrannu i Undeb Rygbi Cymru gyda'r tri phrif faes nesaf – pêl-droed, criced a rasio ceffylau – yn cael rhwng £1,000,000 a £1,500,000 yr un. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y cyllid hwn "yn seiliedig ar y dybiaeth nad yw gwylwyr yn debygol o ddychwelyd mewn niferoedd sylweddol cyn yr haf".[17]

***Mewn ymateb i'r pandemig hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu pecyn cymorth cyllid digynsail i'r sector ac mae'r Pwyllgor yn canmol y ffordd y mae'r sector wedi gweithio gyda'i gilydd i ddosbarthu'r cyllid hwn.***

***O ran cymorth i'r hunangyflogedig, clywsom am fylchau yn y cymorth a ddarperir ac, er gwaethaf taliadau £1,500 untro – y mae croeso mawr iddynt –*** o'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon, mae'n amlwg bod pobl hunangyflogedig yn wynebu cyfnod hirfaith arall heb fynediad at incwm. At hynny, rydym yn deall y gall meini prawf gwahanol a gymhwysir i Gam 2 ei gwneud yn anoddach i rai pobl hunangyflogedig hawlio (***gweler gwybodaeth ychwanegol gan EMD UK*****).**

***Argymhelliad 5) Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i bryderon EMD UK ynghylch Cam 2 o'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon. Yn benodol, effeithiolrwydd trefniadau i gefnogi pobl hunangyflogedig yn y sector.***

***Rydym yn croesawu'r cyllid i gefnogi chwaraeon gwylwyr yng Nghymru ac yn cytuno, tra gwaherddir gwylwyr rhag mynd i ddigwyddiadau, y dylai Llywodraeth Cymru barhau i'w cefnogi. Nodwn y dyrannwyd cyfran helaeth o'r cyllid hwn i Undeb Rygbi Cymru a byddem yn croesawu mwy o fanylion am y rhesymeg dros hyn.***

---

[14] Paragraff 55

[15] Paragraff 59

[16] Paragraffau 157 - 158

[17] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, 29 Ionawr 2021

***Argymhelliad 6) O ran y Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr, dylai Llywodraeth Cymru:***

- ***roi mwy o fanylion am y rhesymeg y tu ôl i ddyrannu cyfran helaeth o'r Gronfa i rygbi'r undeb;***
- ***cadarnhau a yw'r cyllid hwn wedi'i ailddyrannu o wariant yn rhywle arall neu a yw'n arian newydd;***
- ***cadarnhau'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniad mewn perthynas ag unrhyw gyllid ychwanegol a grybwyllir yn y datganiad ysgrifenedig ar 29 Ionawr 2021;***
- ***cadarnhau a oes amodau wedi'u hatodi i'r cyllid a ddarperir i gyrff llywodraethu, os felly, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff cyllid ei ddosbarthu'n deg ymhlith haenau a lefelau gwahanol o weithgarwch –*** yn enwedig y lefel llawr gwlad.

***Clywsom bryderon o'r blaen ynghylch cynaliadwyedd ariannol ymddiriedolaethau hamdden o gofio'r gostyngiad estynedig mewn incwm y maent wedi'i wynebu. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o gynaliadwyedd ariannol ymddiriedolaethau hamdden, a pha gymorth ariannol sydd ar gael i helpu'r ymddiriedolaethau y mae arnynt ei angen i oroesi'r pandemig?***

**Adferiad ar ôl y pandemig i'r sector**

Wrth edrych ymlaen at adferiad ar ôl y pandemig, cytunodd rhanddeiliaid y gellid gwneud mwy i gysoni polisi chwaraeon a gweithgarwch corfforol ag iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.[18]

Esboniodd Brian Davies fod Chwaraeon Cymru wedi bod yn rhan o drafodaethau ar adferiad COVID ar lefel uchel, ond yr hoffai ef a'r sector gael rôl fwy hanfodol ynddynt.[19] Yn benodol, rhybuddiodd Mr Davies fod cydnerthedd y sector yn y dyfodol yn gysylltiedig ac mai'r hyn nad ydynt am ei wneud yw canolbwyntio ar un peth yn fwy na'r llall, ac yn sicr nid rhywun elitaidd ar draul chwaraeon cymunedol.[20]

Roedd hon hefyd yn thema allweddol yn **ein hadroddiad blaenorol** pan wnaethom alw am fwy o gydweithrediad rhwng y sectorau iechyd a chwaraeon wrth gynllunio ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig.

***Mae ail don y pandemig wedi golygu bod gwaith cynllunio ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig wedi'i ohirio am y tro. Fodd bynnag, mae datblygiadau calonogol ar y gorwel, gan gynnwys cyflwyno rhaglen frechu dorfol.***

***Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adferiad ar ôl y pandemig yn rhoi pwyslais cryf ar fuddion chwaraeon a gweithgarwch corfforol.***

---

[18] Paragraffau 182, 183, 184

[19] Paragraff 36

[20] Paragraff 44

***Argymhelliad 7) Byddem yn croesawu diweddariad ar waith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig i gynnwys:***

- ***manylion ar sut mae'n ymgysylltu â'r sectorau chwaraeon ac iechyd i sicrhau dull cydgysylltiedig o lunio polisïau;***
- ***goblygiadau cyflwyno rhaglen frechu dorfol ar gyfer amserlen adferiad COVID-19;***
- ***pa wersi y mae wedi'u dysgu o'r pandemig am fuddion iechyd ataliol gweithgarwch corfforol. A fydd y profiad hwn yn arwain at newid sylweddol yn y maes hwn ac, os felly, sut y caiff hyn ei gyflawni?***

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/509/21

Bethan Sayed AS/MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

12 Mawrth 2021

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror ar ran y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ynghylch effaith COVID-19 ar chwaraeon.

Yr ydych wedi codi nifer o bwyntiau pwysig a rhoddaf sylw i'r rhain yn y drefn yr ydych wedi'u codi.

**Argymhelliad 1.**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chwaraeon Cymru ac eraill i gynnal ymchwil pellach ar effaith y pandemig ar lefelau cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig er mwyn llywio cynllunio a pholisi ar ôl pandemig. Rhaid i'r ymchwil hon gynnwys asesiad o'r effaith ar gyfranogiad menywod, y gymuned BAME, ac ar blant a phobl ifanc.**

Mae Chwaraeon Cymru wedi comisiynu Savanta ComRes gyda'r bwriad o gael cipolwg ar arferion ac ymddygiadau'r genedl yn ystod y Coronafeirws. Mae'r mewnwelediad hwn wedi digwydd ar ddau achlysur (Mai a Hydref 2020). Mae'r ddwy astudiaeth yn cynnwys data penodol ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig gan gynnwys cyfraddau cyfranogi ar gyfer menywod a phlant, a'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, fodd bynnag, nid oedd meintiau sampl yn ddigon i adrodd ar gymunedau BAME yn hyderus. Gellir gweld crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer y ddwy fersiwn o'r arolwg yma:

https://www.chwaraeon.cymru/ymchwil-a-gwybodaeth/comres/

Yn ogystal â'r ffigurau hyn, mae Chwaraeon Cymru wrthi'n comisiynu Savanta ComRes i gynnal arolwg arall i sicrhau ein bod yn parhau i olrhain effaith y pandemig ar ffigurau cyfranogiad, ymhlith grwpiau nodweddion gwarchodedig a'r boblogaeth ehangach.

At hynny, nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru ei ganfyddiadau ynghylch cyfranogiad ym mis Ebrill 2020, gan gynnwys y cyfnod cyn Covid-19. Mae hyn yn rhoi data ar gyfer menywod, plant a'r gymuned BAME. Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru wrthi'n cynnal Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020/21 a bydd yn defnyddio'r cyhoeddiad hwnnw fel

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cymhariaeth yn ystod blwyddyn y pandemig i archwilio ymhellach i'r effaith ar y grwpiau unigol hyn.

Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi comisiynu dau adolygiad systematig drwy bartneriaeth â'r sector prifysgolion yng Nghymru yn Athrofa Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru (WIPAHS). Y cyntaf yw adolygiad systematig o effaith pandemig Clefyd Coronafeirws 2019 (COVID-19) ar ymddygiad llonydd mewn plant ac oedolion. Mae'r llall yn adolygiad systematig o'r model cymdeithasegol sy'n datblygu i asesu effaith pandemig COVID-19 ar gydberthynas gweithgarwch corfforol ac ymddygiad llonydd. Bydd y ddau adolygiad yn darparu ymchwil academaidd i effaith Covid-19 i helpu i lywio'r ffordd y gellir cynnal ymyriadau wedi'u targedu yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â Sport England, Sport Scotland, Sport NI ac UK Sport, mewn cydweithrediad, mae Chwaraeon Cymru wedi comisiynu Canolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon ym Mhrifysgol Sheffield Hallam i gynnal ymarfer casglu data ar hil mewn chwaraeon yn ogystal ag AKD Solutions sy'n cynnal astudiaeth profiad o lygad y ffynnon. Bydd y gwaith hwn, o'i ddwyn ynghyd, yn ogystal â'n meysydd ymchwil a dealltwriaeth eraill o hil mewn chwaraeon, yn cefnogi Chwaraeon Cymru a'u partneriaid yn eu dull ôl-bandemig o ymgysylltu â'r gymuned BAME.

**Argymhelliad 2.**

**Pan fydd amodau (o ran rheoli'r feirws) yn caniatáu, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod campfeydd, lleoliadau chwaraeon, a lleoliadau ymarfer corff eraill (gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff grŵp sy'n cyfarfod yn yr awyr agored) ymhlith y blaenoriaethau wrth ddod allan o'r cyfyngiadau symud.**

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod pobl yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden cyn gynted â phosibl ond dim ond pan fydd y dystiolaeth wyddonol yn awgrymu ei bod yn ddiogel gwneud hynny. Bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu bob 21 diwrnod.

**Argymhelliad 3.**

**Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am sut y penderfynwyd ar y nifer uchaf o 30. Er mwyn ein galluogi i wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r dystiolaeth wyddonol y seilir y rheol hon arni. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa asesiad y mae wedi'i wneud o'r effaith y bydd terfyn o 30 person yn ei chael ar ailddechrau gweithgareddau chwaraeon, yn enwedig ar lawr gwlad.**

Roedd y nifer 30 yn yr awyr agored yn rhan o'r broses ddatgloi wreiddiol ac fe'i mabwysiadwyd er cysondeb ar draws y pedair gwlad, wrth osgoi crynoadau torfol. Yr oedd yn rheol gyffredinol a osodwyd, yn hytrach na rhywbeth a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer chwaraeon. Roedd ganddo'r fantais achlysurol o ganiatáu i rai chwaraeon tîm ailddechrau.

**Argymhelliad 4.**

**Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei barn ar:**

- **yr amodau a fyddai'n galluogi treialu digwyddiadau chwaraeon gyda gwylwyr yn ddiogel;**

  Mae ein Cynllun Rheoli Coronafeirws, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yn esbonio'r amodau y byddem yn symud rhwng y gwahanol lefelau rhybudd. Bydd digwyddiadau prawf yn cael eu hystyried ar lefel rhybudd dau a bydd dychwelyd gwylwyr i stadia, mewn niferoedd cyfyngedig, yn cael ei ystyried ar lefel rhybudd un.

• **y berthynas rhwng y rhaglen frechu a dychwelyd gwylwyr i ddigwyddiadau chwaraeon;**

Mae ein rhaglen frechu yn mynd o nerth i nerth. Rydym yn gobeithio dros amser y gall brechlynnau ein helpu i symud oddi wrth yr angen am gyfyngiadau symud llym iawn a byddant yn helpu i'n hamddiffyn rhag y risg o salwch difrifol. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cymryd tro arall gan ein bod wedi gweld amrywiolion newydd yn dod i'r amlwg yn y DU a thramor, a allai gynyddu'r risg o glefyd difrifol, cyfradd yr haint a hyd yn oed gyfyngu ar effeithiolrwydd y brechlynnau presennol. Mae'r newidiadau a'r ansicrwydd hyn yn golygu bod angen i ni gymryd agwedd fwy gofalus tuag at ddod allan o'r cyfyngiadau symud. Gallwn nodi mai'r cyfyngiadau a nodir yn lefel rhybudd tri yw'r cam cyntaf yr ydym yn gweithio tuag ato. Mae cyflwyno'r brechlyn i'r pum grŵp blaenoriaeth nesaf erbyn diwedd mis Ebrill hefyd yn garreg filltir glir arall y disgwyliwn ail-werthuso ein dull gweithredu yn ei herbyn yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf.

• **manylion unrhyw ymgysylltu y mae'n ei gael gyda chlybiau Cymru yn chwarae yng nghynghrair pêl-droed Lloegr i sicrhau meddwl cydgysylltiedig a diweddariad ar yr amserlenni presennol y mae'n gweithio tuag atynt yn hynny o beth.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal deialog reolaidd, yn uniongyrchol a thrwy'r grwpiau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gydag amrywiaeth o glybiau, sefydliadau a chyrff llywodraethu chwaraeon. Byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl am y newidiadau rydym yn eu blaenoriaethu ar gyfer cyfnodau adolygu sydd i ddod a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau i'w cefnogi i ddychwelyd mewn modd ddiogel cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 5.**

**Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i bryderon EMDUK ynghylch Cam 2 y Gronfa Chwarae Llawrydd. Yn benodol, effeithiolrwydd trefniadau i gefnogi pobl hunangyflogedig o fewn y sector.**

Ers lansio'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon gychwynnol, mae Chwaraeon Cymru wedi darparu ail rownd y cymorth hwn. Cynyddu'r cynnig cychwynnol o £1,500 i £2,500 ar gyfer pob gweithiwr llawrydd llwyddiannus blaenorol a newydd. Mae'r gronfa wedi gallu cefnogi 1,090 o weithwyr llawrydd gyda buddsoddiad o £2.75m.

Yn ogystal, lansiwyd y Gronfa Darparwyr Preifat Chwaraeon hefyd, sy'n caniatáu i lawer o weithwyr llawrydd sydd wedi gallu dangos colledion sylweddol hefyd allu cael gafael ar gymorth. Mae'r gronfa hon, yn ogystal â chefnogi gweithwyr llawrydd, wedi gallu darparu cymorth ariannol y mae mawr ei angen i ran eang o'r sector chwaraeon masnachol. Er i'r gronfa gau ar 19 Chwefror, mae ceisiadau'n parhau I gael eu hasesu a rhagwelir y bydd mwy na 400 o ddarparwyr masnachol yn llwyddiannus yn eu ceisiadau. Mae'n werth nodi mai'r rhain yw'r unig gynlluniau o'u bath ledled y DU o hyd.

**Argymhelliad 6**

**O ran Cronfa Goroesi Chwaraeon y Gwyliwr, dylai Llywodraeth Cymru:**

• **roi mwy o fanylion am y rhesymeg y tu ôl i ddyrannu'r gyfran helaeth o'r Gronfa i Rygbi'r Undeb;**

Mae lefel y cyllid a ddarperir yn gymesur â graddfa'r colledion a gofnodwyd gan bob camp a'r cyllid y maent eisoes wedi'i gael o ffynonellau eraill. Mae'r cyllid ar gyfer

rygbi'r undeb yn adlewyrchu'r colledion y mae'r pedwar rhanbarth wedi'u dioddef yn ogystal â'r rhai a ddioddefwyd gan Undeb Rygbi Cymru – yn bennaf gêm Cymru v Yr Alban 2020 y Chwe Gwlad; Cwpan Cenhedloedd yr Hydref 2020; a Chwe Gwlad 2021.

• **cadarnhau a yw'r cyllid hwn wedi'i ail-ddyrannu o wariant mewn mannau eraill neu a yw'n arian newydd**;

Mae'r cyllid yn arian newydd a ddyrennir o fewn cronfa refeniw Covid-19.

• **cadarnhau'r amserlenni ar gyfer dod i benderfyniad mewn perthynas ag unrhyw gyllid ychwanegol a grybwyllir yn y datganiad ysgrifenedig ar 29 Ionawr 2021; a**

Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa, yn enwedig mewn perthynas â chwaraeon yr haf dros y misoedd nesaf, a byddwn yn adolygu'r sefyllfa'n llawn ym mis Medi 2021 i ystyried a oes angen unrhyw gymorth pellach, yng nghyd-destun sut mae'r pandemig wedi esblygu a'r sefyllfa ariannu bryd hynny.

• **cadarnhau a oes unrhyw amodau ynghlwm wrth y cyllid a ddarperir i gyrff llywodraethu, os felly, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg ymhlith gwahanol haenau a lefelau gweithgarwch – yn enwedig ar lawr gwlad.**

Bydd y grant a gynigir i'r cyrff llywodraethu yn adlewyrchu telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru a'r blaenoriaethau y cytunwyd ar y cyllid ar eu gyfer.

• **Clywsom bryderon hefyd yn flaenorol ynghylch cynaliadwyedd ariannol ymddiriedolaethau hamdden, o ystyried y gostyngiad estynedig mewn incwm y maent wedi'i wynebu. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o gynaliadwyedd ariannol ymddiriedolaethau hamdden, a pha gymorth ariannol sydd ar gael i helpu'r ymddiriedolaethau hynny sydd ei angen i oroesi'r pandemig?"**

Mae astudiaethau economaidd a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Chwaraeon Cymru yn awgrymu bod Ymddiriedolaethau Hamdden a Diwylliant Cymru yn parhau i wynebu costau misol sylweddol, hyd yn oed gyda chau clybiau hamdden. At hynny, mae'r astudiaethau'n awgrymu nad yw atal a/neu ohirio aelodaeth gan glybiau a chanolfannau hamdden ond yn gohirio'r broblem llif arian hyd at ddyddiad diweddarach. Mae'r astudiaethau a gomisiynwyd hefyd yn tynnu sylw at bryder am hyfforddwyr hunangyflogedig sy'n gweithio yn y sector awyr agored ac yn y canolfannau awyr agored ledled Cymru, na fyddant yn gallu adennill incwm a gollwyd o dymor y gaeaf, os bydd cyfyngiadau teithio'n parhau dros fisoedd yr haf.

O ran y cymorth ariannol a ddarperir, cytunwyd i ddarparu cymorth craidd i ymddiriedolaethau hamdden drwy Gronfa Caledi Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, yn ogystal â hyn, dosbarthwyd cyfanswm o £572k yn uniongyrchol hefyd i ymddiriedolaethau hamdden drwy gyllid sydd wedi'i addasu at ddibenion gwahanol Chwaraeon Cymru drwy'r Gronfa Cydnerthedd Chwaraeon ar ddechrau'r pandemig.

Yn ychwanegol at hyn, fel rhan o'r Pecyn Adfer Chwaraeon a Hamdden, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, rhoddodd Chwaraeon Cymru grantiau pellach gwerth cyfanswm o £2.5m i awdurdodau lleol eu dosbarthu (gan gynnwys i ymddiriedolaethau hamdden).

**Argymhelliad 7**

**Byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio adferiad ôl-bandemig Llywodraeth Cymru i gynnwys:**

- **manylion am sut y mae'n ymgysylltu â'r sectorau chwaraeon a iechyd er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o lunio polisïau;**

Gan fod y pandemig wedi herio'r sefyllfa bresennol o gynifer o agweddau ar sut rydym yn byw ac yn gweithio yng Nghymru, bydd ein Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer Pwysau Iach: Cymru Iach yn sicrhau bod gweithgarwch corfforol yn rhan annatod o'n cynlluniau adfer ac y bydd yn canolbwyntio ar ein lles corfforol a meddyliol. Mae hyn yn cael ei lansio gan y Gweinidog dros Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg ar 18 Mawrth. Mae'r cynllun yn nodi amrywiaeth o ddulliau a fydd yn integreiddio gwaith ar draws y sectorau chwaraeon a iechyd er mwyn sicrhau y gallwn ysgogi dulliau wedi'u targedu.

Er enghraifft, mae'r pandemig wedi amharu ar weithgareddau rheolaidd ac arferion ymarfer corff. Rydym am gynyddu cyfleoedd i fod yn gorfforol egnïol, mae hyn yn ganolog i alluogi lles corfforol a meddyliol da. Dyna pam rydym, fel rhan o Bwysau Iach: Cymru Iach, wedi buddsoddi £600k i Chwaraeon Cymru i ddatblygu cynnig Cynllun Hamdden Egnïol 60 a Mwy. Bydd hyn yn galluogi Chwaraeon Cymru i barhau i ddarparu cyfleoedd gweithgarwch corfforol wedi'u targedu i gyfrannu at leihad mewn anghydraddoldebau iechyd ymhlith y boblogaeth 60 oed a throsodd sy'n segur ar hyn o bryd neu'r lleiaf egnïol yn 2021-22. Drwy'r cyllid, mae Chwaraeon Cymru yn gweithio drwy Awdurdodau Lleol i gynnig darpariaeth wedi'i thargedu i'r rhai sy'n segur ar hyn o bryd neu'r lleiaf egnïol. Bydd hyn yn gweithio gyda'r sector iechyd drwy feysydd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Ymarfer Corff a rhagnodi cymdeithasol.

Mae Chwaraeon Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu'r Gronfa Iach ac Egnïol ar y cyd, sy'n cynrychioli ymrwymiad sylweddol o £5.4 miliwn dros dair blynedd i gefnogi prosiectau sy'n anelu at gynyddu gweithgarwch corfforol y rhai sy'n llonydd ar hyn o bryd neu sydd â lefelau isel iawn o weithgarwch corfforol a gwella lefelau lles meddyliol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gryfhau asedau cymunedol. Mae'r 17 prosiect llwyddiannus yn cynnig cymorth i amrywiaeth o wahanol ddemograffeg ac oedrannau ac rydym yn gweithio i ddatblygu dulliau gwerthuso a monitro cyffredin i helpu i gefnogi a darparu tystiolaeth.

- **goblygiadau cyflwyno brechiad torfol ar gyfer amserlen adfer COVID-19; a**

- **pa wersi y mae wedi'u dysgu o'r pandemig am fanteision iechyd ataliol gweithgarwch corfforol. A fydd y profiad hwn yn arwain at newid sylweddol yn y maes hwn, ac os felly, sut y cyflawnir hyn?**

Er nad yw'r effaith lawn yn hysbys eto, mae'r pandemig yn debygol o waethygu anweithgarwch corfforol ac wedi achosi cynnydd mewn ymddygiad llonydd. Dywed Chwaraeon Cymru nad oes data ar hyn o bryd ar ba effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar weithgarwch corfforol, ond mae cyfnodau cloi, cyfyngiadau symud, cau campfeydd a mesurau eraill wedi amharu ar weithgareddau rheolaidd ac arferion ymarfer corff. Fodd bynnag, cyn yr argyfwng, dangosodd data ffordd o fyw oedolion Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 mai dim ond 53% o oedolion a ddywedodd eu bod yn egnïol am o leiaf 150 munud yn yr wythnos flaenorol.

Gall gweithgarwch corfforol rheolaidd atal a helpu i reoli clefyd y galon, diabetes a chanser a lleihau iselder a gorbryder, dirywiad gwybyddol a gall hybu iechyd yr

ymennydd. Mae cysylltiadau sefydledig hefyd rhwng anweithgarwch corfforol a gordewdra, sydd wedi profi'n ffactor cyfrannol ar gyfer canlyniadau gwaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr angen parhaus i roi ffocws ar glefyd nad yw'n drosglwyddadwy.

Mae argyfwng COVID-19 wedi newid patrymau gweithgarwch corfforol mewn ffyrdd a oedd yn unigryw cyn yr achosion. Mae cyfyngiadau gorfodol ar symudedd a chau gweithgareddau chwaraeon a champfeydd dan do wedi amlygu cyfyngiadau llawer o feysydd o ran galluogi gweithgarwch corfforol ac atgyfnerthu anghydraddoldebau mewn cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol. Er enghraifft, gwyddom fod risgiau o ran ymddygiad llonydd gyda mwy o weithio gartref. Fodd bynnag, mae gostyngiadau digynsail mewn symudedd a chynnydd mewn gweithgarwch corfforol lleol hefyd wedi grymuso pobl i feddwl mwy am eu hiechyd a'u lles ac wedi cysylltu pobl yn fwy â mannau yn eu hardaloedd lleol.

Byddwn yn buddsoddi £6.5m yn ein cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2021-22 a fydd yn datblygu dulliau targed drwy gyfleoedd hamdden i bobl dros 60 oed, datblygu cynlluniau peilot lleol drwy raglenni plant a theuluoedd a datblygu dulliau sy'n seiliedig ar systemau a fydd yn rhoi cymunedau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae cyfleoedd sylweddol drwy ein mannau gwyrdd a byddwn yn gweithio drwy raglenni fel Parc Rhanbarthol y Cymoedd i'n helpu i rymuso cymunedau lleol.

Fel rhan o'r cynllun cyflawni byddwn hefyd yn datblygu Cynnig Cenedlaethol Dyddiol Egnïol drwy ysgolion a fydd yn canolbwyntio ar ddwyn ynghyd ystod o bartneriaid a rhaglenni i gymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig i annog gweithgarwch corfforol cyn, yn ystod ac ar ôl yr ysgol. Bydd hyn yn ystyried ystod o dystiolaeth sy'n gysylltiedig â newid ymddygiad o'r pandemig.

Gobeithio fydd yr ymatebion hyn o gymorth ichi. Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith sydd heb os wedi ysgogi trafodaeth ddefnyddiol, a bydd yn ein helpu i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau parhaus sy'n wynebu'r sector.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism